***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

PROSPECTIVE

## ATODLEN 1

*(a gyflwynwyd gan adran 35)*

## NEWID TREFNIADAU AMGEN YN DREFNIADAU GWEITHREDIAETH

### **RHAN 1**

### DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

*Rhagymadrodd*

1 Mae'r Atodlen hon yn gymwys i awdurdod lleol os yw adran 35 yn ei gwneud yn ofynnol iddo newid trefniadau amgen yn drefniadau gweithrediaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Cynigion ar gyfer symud at weithredu trefniadau gweithrediaeth*

2 (1) Rhaid i'r awdurdod lunio cynigion i newid trefniadau amgen yn drefniadau gweithrediaeth, a rhaid iddo eu cymeradwyo drwy benderfyniad.

(2) Wrth lunio'r cynigion, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried i ba raddau y bydd y cynigion yn debygol, os rhoddir hwy ar waith, o gynorthwyo i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae swyddogaethau'r awdurdod yn cael eu harfer, gan roi sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol anfon at Weinidogion Cymru—

(a) copi o'r cynigion a gymeradwywyd ganddo, a

(b) (gyda'r copi o'r cynigion) datganiad sy'n disgrifio'r rhesymau pam bod yr awdurdod o'r farn y byddai ei gynigion yn debygol, pe bydden yn cael eu rhoi ar waith, o sicrhau bod penderfyniadau'r awdurdod yn cael eu gwneud mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag is-baragraffau (1) a (3) o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y daw adran 35 i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Cynnwys cynigion*

3 Rhaid i gynigion awdurdod lleol gynnwys pob un o'r canlynol—

(a) datganiad ynghylch i ba raddau y mae'r weithrediaeth i fod yn gyfrifol am swyddogaethau a bennir mewn rheoliadau o dan adran 13(3)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o dan y trefniadau gweithrediaeth arfaethedig,

(b) amserlen mewn cysylltiad â rhoi'r cynigion ar waith, ac

(c) manylion unrhyw drefniadau trosiannol sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Refferenda*

4 (1) Os gweithrediaeth maer a chabinet yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth, rhaid i'r cynigion ddarparu bod y newid i drefniadau gweithrediaeth yn ddarostyngedig i'w gymeradwyo mewn refferendwm.

(2) Os gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru) yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth, ni chaiff y cynigion ddarparu bod y newid i drefniadau gweithrediaeth yn ddarostyngedig i'w gymeradwyo mewn refferendwm.

(3) Mae adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (darpariaethau mewn cysylltiad â refferenda) yn cael effaith fel pe bai is-adran (9) yn cynnwys cyfeiriad at refferendwm ar newid trefniadau amgen yn drefniadau gweithrediaeth yn unol ag adran 35.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Yr amserlen ar gyfer rhoi ar waith newid i weithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru)*

5 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion awdurdod lleol os gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru) yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth.

(2) Rhaid i'r amserlen mewn cysylltiad â rhoi'r cynigion ar waith fod yn un sy'n sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gwneud y newid i drefniadau gweithrediaeth cyn pen y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod lleol yn anfon copi o'r cynigion at Weinidogion Cymru, ac heb fod yn hwyrach na hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Yr amserlen ar gyfer rhoi ar waith newid i weithrediaeth maer a chabinet*

6 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion awdurdod lleol os gweithrediaeth maer a chabinet yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth (a'i bod yn unol â hynny'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth mewn refferendwm).

(2) Rhaid i'r amserlen mewn cysylltiad â rhoi'r cynigion ar waith gydymffurfio ag is-baragraffau (3) a (4).

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(3) Rhaid i'r amserlen fod yn un sy'n sicrhau y bydd yr awdurdod lleol yn cynnal y refferendwm o fewn y cyfnod—

(a) sy'n dechrau ddeufis, ac

(b) sy'n dod i ben chwe mis,

ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod lleol yn anfon y copi o'r cynigion at Weinidogion Cymru.

(4) Os canlyniad y refferendwm yw cymeradwyo'r newid i drefniadau gweithrediaeth, rhaid i'r amserlen fod yn un sy'n sicrhau y bydd yr awdurdod lleol yn gwneud y newid hwnnw o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y cynhelir y refferendwm.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Cyhoeddusrwydd i gynigion*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i awdurdod lleol sydd wedi cymeradwyo cynigion drwy benderfyniad.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau gweithrediaeth arfaethedig ar gael yn ei brif swyddfa i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar bob adeg resymol.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad—

(a) sy'n datgan bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu'r trefniadau gweithrediaeth arfaethedig,

(b) os gweithrediaeth maer a chabinet yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth, sy'n datgan—

(i) ei bod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth mewn refferendwm, a

(ii) dyddiad y refferendwm

(c) sy'n datgan y dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu dechrau gweithredu'r trefniadau hynny,

(d) sy'n disgrifio prif nodweddion y trefniadau hynny,

(e) sy'n datgan bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau hynny ar gael ym mhrif swyddfa'r awdurdod lleol i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar yr adegau a bennir yn yr hysbysiad, ac

(f) sy'n rhoi cyfeiriad prif swyddfa'r awdurdod lleol.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag is-adrannau (2) a (3) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo basio'r penderfyniad yn cymeradwyo'r cynigion.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

*Rhoi cynigion ar waith*

8 (1) Rhaid i awdurdod lleol roi ei gynigion ar waith yn unol â'r amserlen sydd wedi ei chynnwys yn y cynigion.

(2) Ond o ran y ffurf arfaethedig ar weithrediaeth—

(a) os gweithrediaeth maer a chabinet yw, a

(b) os nad yw'n cael ei chymeradwyo n y refferendwm ar y newid i'r ffurf honno ar weithrediaeth,

ni chaniateir i'r awdurdod lleol roi'r newid ar waith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

## RHAN 2

## DARPARIAETHAU ERAILL SY'N GYMWYS PAN FO REFFERENDWM YN OFYNNOL

*Cynigion amlinellol wrth gefn rhag ofn y gwrthodir newid mewn refferendwm*

9 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i awdurdod lleol os gweithrediaeth maer a chabinet yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth (a'i bod yn unol â hynny'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth mewn refferendwm).

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol lunio amlinelliad o'r cynigion wrth gefn ("cynigion amlinellol wrth gefn") y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith os gwrthodir y cynigion i newid i weithrediaeth maer a chabinet mewn refferendwm, a rhaid iddo'i gymeradwyo drwy benderfyniad.

(3) Cynigion yw cynigion wrth gefn ar gyfer gwneud newid i drefniadau gweithrediaeth sy'n darparu ar gyfer gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru).

(4) Mae paragraff 2(2) yn gymwys i'r cynigion amlinellol wrth gefn fel y mae'n gymwys i gynigion o dan y paragraff hwnnw.

(5) Rhaid i'r cynigion amlinellol wrth gefn gynnwys amserlen mewn cysylltiad â rhoi ar waith (yn unol â pharagraff 11) gynigion manwl wrth gefn os digwydd na chymeradwyir newid i weithrediaeth maer a chabinet yn y refferendwm.

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag is-baragraff (2) ar yr adeg y mae'n cydymffurfio â pharagraff 2(1).

(7) Rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi o'r cynigion amlinellol wrth gefn y mae wedi eu cymeradwyo at Weinidogion Cymru.

(8) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag is-baragraff (7) ar yr adeg y mae'n cydymffurfio â pharagraff 2(3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 1 para. 9 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

*Camau gweithredu os gwrthodir newid mewn refferendwm*

10 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i awdurdod lleol—

(a) os gweithrediaeth maer a chabinet yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth, a

(b) os nad yw'r ffurf arfaethedig yn cael ei chymeradwyo yn y refferendwm ar newid i'r ffurf honno ar weithrediaeth.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad—

(a) sy'n crynhoi cynigion yr awdurdod lleol a oedd yn destun y refferendwm,

(b) sy'n datgan bod refferendwm ar gynigion yr awdurdod lleol wedi gwrthod y cynigion hynny,

(c) sy'n nodi cynigion amlinellol wrth gefn yr awdurdod lleol, a

(d) sy'n datgan bod yr awdurdod, o dan y cynigion amlinellol wrth gefn, yn bwriadu gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru).

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag is-baragraff (2) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y refferendwm.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynigion manwl wrth gefn sy'n seiliedig ar y cynigion amlinellol wrth gefn, a rhaid iddo eu cymeradwyo drwy benderfyniad.

(5) Mae paragraffau 2(2), 3 a 7(2) a (3) yn gymwys i'r cynigion manwl wrth gefn fel y maent yn gymwys i gynigion o dan baragraff 2.

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi o'r cynigion manwl wrth gefn at Weinidogion Cymru.

(7) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag is-baragraff (6) o fewn y cyfnod o dau fis sy'n dechrau ar ddiwrnod y refferendwm.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Atod. 1 para. 10 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Yr amserlen ar gyfer rhoi ar waith gynigion manwl wrth gefn*

11 Mae'n rhaid i'r amserlen mewn cysylltiad â rhoi ar waith y cynigion manwl wrth gefn fod yn un sy'n sicrhau bod yr awdurdod lleol yn newid i weithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru) cyn pen y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod lleol yn anfon copi o'r cynigion at Weinidogion Cymru, a heb fod yn hwyrach na hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. 1 para. 11 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Rhoi ar waith gynigion manwl wrth gefn*

12 Rhaid i'r awdurdod lleol roi ar waith ei gynigion manwl wrth gefn yn unol â'r amserlen sydd wedi ei chynnwys yn y cynigion.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Atod. 1 para. 12 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

## RHAN 3

AMRYWIOL

*Methu â rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen*

13 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru y bydd awdurdod lleol yn methu â rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen a dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth yn unol ag adran 35.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddarparu bod yr awdurdod lleol—

(a) yn rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen, a

(b) yn dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth ar ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru ("trefniadau gweithrediaeth gosodedig").

(3) Mae trefniadau gweithrediaeth gosodedig i'w trin fel pe baent wedi eu gwneud gan yr awdurdod lleol ei hun.

(4) Mae paragraffau 7(2) a (3)(c) i (e) yn gymwys i drefniadau gweithrediaeth gosodedig fel y maent yn gymwys i drefniadau gweithrediaeth mewn cynigion o dan baragraff 2.

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r darpariaethau hynny ym mharagraff 7 (fel y maent yn gymwys yn rhinwedd is-baragraff (4)) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru wneud y gorchymyn sy'n darparu ar gyfer y trefniadau gweithrediaeth gosodedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 1 para. 13 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Y trefniadau i'w trin fel pe baent yn cael eu gweithredu ar ôl pasio penderfyniad*

14 Mae trefniadau gweithrediaeth sy'n dod yn weithredol yn unol ag adran 35 a'r Atodlen hon i'w trin fel pe baent yn cael eu gweithredu ar ôl i'r awdurdod lleol basio penderfyniad o dan adran 38.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Atod. 1 para. 14 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Dehongli*

15 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cynigion" (*"proposals"*) (ac eithrio mewn cysylltiad â chynigion wrth gefn) yw cynigion o dan baragraff 2;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

ystyr "cynigion amlinellol wrth gefn" ("*outline fall-back proposals*") yw cynigion o dan baragraff 9(2);

ystyr "cynigion manwl wrth gefn" ("*detailed fall-back proposals*") yw cynigion o dan baragraff 10(4); mae i'r ymadrodd "cynigion wrth gefn" ("*fall-back proposals*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 9(3);

ystyr "ffurf arfaethedig ar weithrediaeth" (*"proposed form of executive"*) yw'r ffurf ar weithrediaeth y mae awdurdod lleol, mewn cynigion o dan baragraff 2, neu mewn cynigion wrth gefn, yn bwriadu dechrau ei gweithredu;

ystyr "newid i drefniadau gweithrediaeth" *("change to executive arrangements")* yw'r newid i drefniadau gweithrediaeth a gynigir mewn cynigion neu mewn cynigion wrth gefn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. 1 para. 15 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

ATODLEN 2 *(a gyflwynwyd gan adran 141(2))*

Y PANEL

*Aelodaeth*

1 (1) [F1Dim llai na 3, a dim mwy na 7,] aelod sydd i'r Panel ac fe'u penodir gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi un o'r aelodau'n Gadeirydd.

(3) Rhaid i aelodau'r Panel ethol un o'u plith yn Is-gadeirydd.

(4) Mae'r canlynol wedi eu anghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Panel—

(a) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) aelod o Dŷ'r Cyffredin;

(c) aelod o Dŷ'r Arglwyddi;

F2(d) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(e) aelod o awdurdod lleol neu o gyngor cymuned;

(f) person sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o awdurdod lleol neu gyngor cymuned.

F3(5) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Atod. 2 para. 1(1) wedi eu hamnewid (25.1.2016) gan Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 (anaw 6), **aau. 41(2)**, 46(1)

**F2** Atod. 2 para. 1(4)(d) wedi ei hepgor (31.1.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/115), rhlau. 1, **2**; O.S. 2020/93, rhl. 2

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**F3** Atod. 2 para. 1(5) wedi ei hepgor (25.1.2016) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 (anaw 6), **aau. 41(3)**, 46(1)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Atod. 2 para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Deiliadaeth*

2 (1) Mae aelodau'r Panel yn dal eu swyddi, ac yn gadael eu swyddi, yn unol â thelerau eu penodiad, sef y telerau y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.

(2) Ni chaniateir penodi person yn aelod o'r Panel am gyfnod hwy na phedair blynedd.

(3) Ond mae gan berson sy'n peidio â bod yn aelod o'r Panel hawl i gael ei ailbenodi.

(4) Mae person a benodir i lenwi sedd wag achlysurol yn aelodaeth y Panel yn gwasanaethu fel aelod hyd at y dyddiad y byddai cyfnod aelodaeth y person y llenwyd ei sedd yn dod i ben.

(5) Mae aelod o'r Panel sy'n dal swydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd yn gwneud hynny nes daw cyfnod aelodaeth y person hwnnw i ben.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Atod. 2 para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Cyfarfodydd*

3 (1) Rhaid i'r Panel gyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn galendr.

(2) Cworwm y Panel yw tri a rhaid iddo gynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd.

(3) Y Cadeirydd(neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd) sy'n llywyddu yng nghyfarfodydd y Panel.

(4) Caiff aelodau'r Panel (yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan 8) reoleiddio gweithdrefnau'r Panel.

(5) Rhaid i gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y Panel gael ei benderfynu mewn cyfarfod o aelodau'r Panel drwy fwyafrif o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw gan yr aelodau hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod.

(6) Os yw nifer y pleidleisiau ar gwestiwn sydd i'w benderfynu yn gyfartal, mae gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod ail bleidlais neu'r bleidlais fwrw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. 2 para. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Gwybodaeth*

4 Caiff y Panel, mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau, geisio gwybodaeth neu gyngor.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. 2 para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Treuliau, cymorth gweinyddol etc.*

5 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu treuliau a dynnir gan y Panel (naill ai gan y Panel fel corff neu gan aelodau unigol o'r Panel) wrth iddo gyflawni swyddogaethau'r Panel (neu swyddogaethau aelodau'r Panel yn rhinwedd eu swydd).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau i aelodau'r Panel.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cymorth gweinyddol ar gael i'r Panel.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. 2 para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

## ATODLEN 3

*(a gyflwynwyd gan adran 160)*

## TALIADAU A PHENSIYNAU: MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf Llywodraeth Leol 1972*

1 (1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 94(5) (lwfansau llywodraeth leol i beidio â chyfrif fel buddiant ariannol at ddibenion gwahardd pleidleisio pan fo gan aelod fuddiant ariannol), ar ôl "1989" mewnosoder "or under any provision of Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(3) Mae adrannau 173 i 178 (lwfansau i aelodau) yn peidio â chael effaith.

(4) Yn adran 246(16) (cymhwyso darpariaethau ynghylch lwfansau awdurdodau lleol i ymddiriedolwyr siarter), ar ôl "above" mewnosoder "and (in relation to Wales) Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(5) Yn adran 249(4)(b) (lwfans nad yw'n daladwy i henaduriaid mygedol am fod yn bresennol mewn seremonïau dinesig), ar y diwedd mewnosoder "or Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. 3 para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989*

2 (1) Diwygir adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (cynlluniau lwfansau i aelodau o awdurdodau lleol) fel a ganlyn.

*Newidiadau i ddeddfwriaeth:* Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes

(2) Hepgorer is-adrannau (1) i (3), (3B), (3D), (3E) a (3G) i (6).

(3) Yn lle is-adran (3A) (pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n galluogi awdurdodau lleol i benderfynu ar hawl i arian rhodd), rhodder—

"(3A) Regulations may be made by the Welsh Ministers to make provision for or in connection with—

(a) enabling county councils or county borough councils to determine which members of the council are to be entitled to gratuities,

(b) treating such payments relating to relevant matters (within the meaning of Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011) as may be specified in the regulations as amounts in respect of which such gratuities are payable.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. 3 para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Deddf yr Amgylchedd 1995*

3 Ym mharagraff 11 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (cymhwyso darpariaethau am lwfansau awdurdodau lleol i awdurdodau Parciau Cenedlaethol), hepgorer is-baragraffau (1) a (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. 3 para. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*

4 (1) Diwygir Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 94(5C) (pŵer i gymhwyso darpariaethau am lwfansau awdurdodau lleol i banelau apelau derbyn), ar ôl "1972" mewnosoder "or (in relation to Wales) Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(3) Yn adran 95(3B) (pŵer i gymhwyso darpariaethau am lwfansau awdurdodau lleol i banelau apelau derbyn yn achos disgyblion sydd wedi eu gwahardd o ddwy neu ragor o ysgolion), ar ôl "1972" mewnosoder "or (in relation to Wales) Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. 3 para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Deddf Llywodraeth Leol 2000*

5 (1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 99(1) (pŵer i wneud darpariaeth ynghylch lwfansau etc. mewn rheoliadau am bensiynau llywodraeth leol), ar y diwedd mewnosoder "; and for the purposes of

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

the application of this subsection to Wales, the reference to pensions and allowances is to be ignored."

(3) Mae adran 100 (pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch lwfansau awdurdodau lleol) yn peidio â chael effaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. 3 para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Deddf Addysg 2002*

6 Yn adran 52(6) o Ddeddf Addysg 2002 (pŵer i gymhwyso darpariaethau ynghylch lwfansau awdurdodau lleol i banelau sy'n ymdrin â gwahardd disgyblion), ar ôl "1972 (c. 70)" mewnosoder "or (in relation to Wales) Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Atod. 3 para. 6 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

*Deddf Addysg a Sgiliau 2008*

7 Yn adran 48(4) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (pŵer i gymhwyso darpariaethau ynghylch lwfansau awdurdodau lleol i banelau presenoldeb), ar ôl "1972 (c. 70)" mewnosoder "or (in relation to Wales) Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Atod. 3 para. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

## ATODLEN 4

*(a gyflwynwyd gan adran 176(2))*

## DIDDYMIADAU A DIRYMIADAU

### RHAN A:

### ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL (RHAN 1 O'R MESUR)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Atod. 4 Pt. A ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

| *Cyfeirnod* | *Graddau'r diddymiad* |
|---|---|
| Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 | Yn adran 2(1)(f), y gair "and" |

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## RHAN B:

## TREFNIADAU LLYWODRAETHU SYDD AR GAEL (RHAN 3 O'R MESUR)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Atod. 4 Pt. B mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(d)**

| *Cyfeirnod* | *Graddau'r diddymiad neu'r dirymiad* |
|---|---|
| Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Yn adran 21(1A), y geiriau "or a mayor and council manager executive". |
| | Yn adran 22(4A), y geiriau "or a mayor and council manager executive". |
| | Yn adran 25A(3), y geiriau "or a mayor and council manager executive". |
| | Yn adran 70(3), y geiriau "or alternative arrangements". |
| | Yn adran 270(1)—<br>(a) y diffiniad o "alternative arrangements";<br>(b) yn y diffiniad o ""mayor and cabinet executive" and "mayor and council manager executive"", y geiriau "and "mayor and council manager executive"". |
| | Yn adran 245(1A) a (4A), y geiriau "or a mayor and council manager executive". |
| Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 | Yn adran 5(3)(b), y geiriau o "and, in a case where" hyd at ddiwedd paragraff (b). |
| | Yn adran 5A(5)(b), y geiriau o "and, where" hyd at ddiwedd paragraff (b). |
| | Yn adran 13—<br>(a) is-adran (5A);<br>(b) yn is-adran (9), y geiriau "and "mayor and council manager executive"". |
| | Yn adran 21(3), y geiriau ""council manager"" a "and "mayor and council manager executive"". |
| Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | Yn adran 106—<br>(a) yn is-adran (1), y geiriau "or a council manager within the meaning of section 11(4)(b) of the Local Government Act 2000";<br>(b) yn is-adran (2), y geiriau "or a council manager". |
| Deddf Llywodraeth Leol 2000 | Yn adran 11— |

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

| *Cyfeirnod* | *Graddau'r diddymiad neu'r dirymiad* |
|---|---|
| | (a) is-adran (4), a<br>(b) yn is-adran (10), y geiriau "or an officer" a "or (4)(b)". |
| | Adran 16. |
| | Adran 26(2)(b). |
| | Adrannau 29. |
| | Adran 33. |
| | Yn adran 48(1), y diffiniad o "council manager". |
| | Yn Atodlen 1, paragraff 3. |
| Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2293) | Y Rheoliadau cyfan. |
| Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 (O.S.2004/3158) | Y Rheoliadau cyfan. |
| Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/397) | Y Rheoliadau cyfan. |
| Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 | Adran 87(3). |

## RHAN C:

## NEWIDIADAU I DREFNIADAU GWEITHREDIAETH (RHAN 4 O'R MESUR)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Atod. 4 Pt. C mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(d)**

| *Cyfeirnod* | *Graddau'r diddymiad* |
|---|---|
| Deddf Llywodraeth Leol 2000 | Adran 30. |

## RHAN D:

## TROSOLWG A CHRAFFU (RHAN 6 O'R MESUR)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Atod. 4 Pt. D ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

| *Cyfeirnod* | *Graddau'r diddymiad* |
|---|---|
| Deddf Llywodraeth Leol 2000 | Yn adran 21(13)(aa), yr "and" olaf. |
| | Yn adran 21A(1)(c), y geiriau "in the case of a local authority in England". |
| | Yn adran 21A(6)(a), y geriau "in England". |
| | Yn adran 21B(1), y geiriau "in England". |
| | Yn adran 22, y geriau "in England". |

**RHAN E:**

CYMUNEDAU A CHYNGHORAU CYMUNED (RHAN 7 O'R MESUR)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Atod. 4 Pt. E mewn grym ar 11.5.2011, gweler **a. 178(1)(c)**

| *Cyfeirnod* | *Graddau'r diddymiad* |
|---|---|
| Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Adrannau 28 i 29B. |

**RHAN F:**

AELODAU: TALIADAU A PHENSIYNAU (RHAN 8 O'R MESUR)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Atod. 4 Pt. F ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

| *Cyfeirnod* | *Graddau'r diddymiad neu'r dirymiad* |
|---|---|
| Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Adrannau 173 i 178. |
| Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 | Adran 18(1) i (3), (3B), (3D), (3E) a (3G) i (6). |
| Deddf yr Amgylchedd 1995 | Yn Atodlen 7, paragraff 11(1) a (2). |
| Deddf Llywodraeth Leol 2000 | Adran 100. |
| Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistrefi Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/1895) | Y Rheoliadau cyfan. |
| Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/895) | Y Rheoliadau cyfan. |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

| *Cyfeirnod* | *Graddau'r diddymiad neu'r dirymiad* |
| --- | --- |
| Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2555) | Y Rheoliadau cyfan. |
| Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1086) | Y Rheoliadau cyfan. |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– s. 83(2) words inserted by 2021 asc 1 Sch. 6 para. 6(5) (amendment never in force)
– s. 161 omitted by 2021 asc 1 s. 170(2)(a)